**Mae'r Ymchwiliad Cyfrinachol Cenedlaethol i Ganlyniadau a Marwolaethau Cleifion (NCEPOD) yn elusen sy'n gweithio i wella gwasanaethau iechyd i'r bobl sy'n eu defnyddio. Rydyn ni'n gwneud hyn drwy gasglu gwybodaeth gan bobl sydd wedi defnyddio gwasanaethau iechyd. Mae ein gwaith wedi arwain at lawer o newidiadau cadarnhaol yn y ffordd y darperir gofal iechyd.**

**Casglon ni wybodaeth gan ysbytai i weld sut roedd gofal yn cael ei ddarparu i blant a phobl ifanc oedd angen llawdriniaeth argyfwng neu frys.**




## Am ragor o wybodaeth, gweler:

**ADRODDIAD LLAWN NCEPOD**

**EIN TUDALEN ADNODDAU DEFNYDDIOL**

## EIN CASGLIADAU

Mae ysbytai fel arfer yn gweithio gyda'i gilydd i rannu gwasanaethau ac i sicrhau bod, os yw rhywun yn cyrraedd ysbyty lle na ellir trin cyflwr penodol, bod modd trefnu trosglwyddiad i'r ysbyty agosaf sy'n gallu gwneud hynny.Gelwir y rhain yn **rhwydweithiau clinigol**, ac er eu bod fel arfer yn gweithio'n dda, weithiau roedd lle i wella, gan nad oedd pawb yn gwybod pwy i'w ffonio nac sut i drefnu'r trosglwyddiad.

Yn yr ysbytai lle mae llawdriniaeth frys yn cael ei darparu, fel arfer mae rhywun, a elwir yn **gydlynydd llawdriniaethau brys**, sy'n gwybod pa lawdriniaethau sy'n digwydd, a ble, ar unrhyw adeg.Yn y ffordd hon, gallant sicrhau bod y bobl sydd angen llawdriniaeth ar frys yn gallu ei chael cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, doedd gan bob ysbyty ddim un, ac dangoson ni fod gofal yn well pan oedden nhw ar gael.

Pan fydd plant yn dod i'r ysbyty ar gyfer llawdriniaeth frys neu argyfwng, weithiau mae'n well aros am sawl awr, neu hyd yn oed tan y diwrnod wedyn os nad yw'r cyflwr yn bygwth bywyd.Fel arfer, **gofynnir i bobl roi'r gorau i fwyta** ac yfed cyn llawdriniaeth, ac fe wnaethon ni ganfod bod pobl, ar adegau, yn mynd yn rhy hir heb fwyta nac yfed oherwydd nad oedd amser y llawdriniaeth wedi'i sefydlu'n glir.

## BETH Y GALL GWASANAETHAU IECHYD EI WNEUD

Sicrhau fod rhwydweithiau ar waith, eu bod wedi'u ffurfioli ac wedi'u cyfleu i bob aelod o'r tîm.

Sicrhau fod o leiaf un cydlynydd llawdriniaethau brys ar waith er mwyn sicrhau y gall plant a phobl ifanc sydd angen llawdriniaeth frys gael mynediad at theatr.

Sicrhau nad yw plant a phobl ifanc sy'n aros am lawdriniaeth frys yn cael eu cadw heb fwyd am gyfnod hirach nag sy'n angenrheidiol.

## BETH Y GALLWCH CHI FEL CLAF/GOFALWR EI WNEUD

**Os ydych chi'n glaf, neu'n riant/gofalwr plentyn sy'n dost, dylech geisio sylw meddygol drwy eich Meddyg Teulu, NHS111 neu 999, oni bai eich bod eisoes o dan ofal ysbyty ac yn gwybod at ba ysbyty i fynd.**

### Yn yr ysbyty gallwch ofyn:

- **Oes gan yr ysbyty hwn y profiad a'r cymorth arbenigol angenrheidiol i drin fi / fy mhlentyn yn ddiogel ac yn briodol yma, neu a fydd angen trosglwyddo i ysbyty arbenigol?**
- **Am faint o amser ddylwn i / ddylem ni ddisgwyl aros am lawdriniaeth?**
- **Alla i / all fy mhlentyn yfed nes bod fi / nhw yn mynd am lawdriniaeth?**
- **Alla i / allwn ni fynd adref tra'n aros am y llawdriniaeth?**

**Does dim cwestiwn yn rhy fach nac yn ddi-bwys. Mae'r tîm gofal iechyd eisiau eich helpu i ddeall eich derbyniad i'r ysbyty ac i deimlo'n hyderus ynghylch eich gofal. Os nad ydych chi'n deall rhywbeth, gofynnwch eto nes eich bod yn ei ddeall.**